

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol
# Swyddog Cyfathrebiadau Corfforaethol

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr




# Neges o groeso gan Tracey Williams, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol

Pan fydd pobl yn meddwl am ein gwasanaeth tân ac achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am ddiffoddwyr tân yn ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn wir, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Yn ogystal â diffoddwyr tân, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn amrywiaeth o rolau amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Cyfathrebiadau yw'r llinyn euraidd sy'n rhedeg trwy ein sefydliad – mae'n bresennol ym mhob agwedd ar yr hyn rydym ni'n ei wneud, mae'n dal popeth at ei gilydd ac yn ychwanegu gwerth. Rydym ni'n wasanaeth brys ac mae pobl yn dibynnu arnom i'w hamddiffyn, felly rydym ni'n llwyr ymwybodol o bwysigrwydd cynnal ymddiriedaeth pobl ynom ni fel sefydliad proffesiynol sydd â safonau uchel iawn.

Un o brif heriau ein tîm Cyfathrebiadau Corfforaethol yw sicrhau bod ein negeseuon yn cael eu gweld, eu clywed a'u deall. Rydym ni'n defnyddio llawer o wahanol fformatau a dulliau cyflwyno i sicrhau bod negeseuon yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosib.

I wneud hyn, rhaid i ni saernïo cynnwys ysbrydoledig a grymus ar draws sawl sianel gyfathrebu er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â'n cymunedau, ein staff a'n budd-ddeiliaid.

O ganlyniad, mae bod yn aelod o dîm Cyfathrebiadau Corfforaethol mewn gwasanaeth brys rheng flaen yn waith sy'n cynnig digon o amrywiaeth a boddhad – gydag ystod o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n rhan allweddol o sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu parhau i ddiogelu ei gymunedau.

Ein gwerthoedd sylfaenol yw ymdrechu am ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym ni eisiau i bobl sydd â'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm i'n helpu ni i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.


Mae rhan arall o'n gwaith mewn rol gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd



# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Swydd

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i helpu i warchod ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol. Mae cyfathrebu'n elfen hollbwysig o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd ati i gyflawni ei weithgareddau o ddydd i ddydd.

Fel Swyddog Cyfathrebiadau Corfforaethol, cewch gyfle i ddefnyddio eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad perthnasol i chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod yr Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol yn cyrraedd y safonau uchaf trwy'r adeg.

Mae hyn yn cynnwys bod yn rhan allweddol o'r broses o greu cynnwys ysbrydoledig a diddorol ar draws sawl platfform cyfathrebu, gan weithio'n unol â chynllun cyflwyno'r adran sy'n cyd-fynd â Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth, a sicrhau bod delwedd broffesiynol y sefydliad yn cael ei chynnal bob amser.

Byddwch angen dawn wrth ysgrifennu negeseuon ar gyfer staff yn ogystal â phrofiad o ddrafftio datganiadau a briffiau cryno a chywir ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd allanol.


Bydd angen i chi fod yn hyfedr wrth ddefnyddio cyfryngau digidol, fel ein gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, a'n mewnrwyd, i roi'r newyddion diweddaraf i'n budd-ddeiliaid.

Ar ben hynny, byddwch hefyd yn datblygu ac yn monitro ymgyrchoedd i gyflawni'r canlyniadau gorau posib.

Bydd gennych radd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc cysylltiedig, neu brofiad cyfatebol ym maes datblygu a chyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebiadau corfforaethol. Bydd gennych yr wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau ac arferion y diwydiant yn ymwneud â chyfathrebiadau er mwyn datblygu dull cyfathrebu digidol integredig i ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a chymunedau lleol.

Mae darparu gwasanaeth dwyieithog yn golygu mwy na dim ond parchu hawliau pobl i gyfathrebu yn y Gymraeg. Bydd angen i chi fod yn siaradwr Cymraeg rhugl, gyda sgiliau ysgrifenedig a rhyngbersonol rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwch yn cydweithio â'r Swyddog Iaith Gymraeg, a bydd gennych y gallu i gynhyrchu cyfathrebiadau dwyieithog at ddefnydd mewnol ac allanol.

Mae gweithio i wasanaeth brys yn aml yn golygu y bydd angen gwneud gwaith cyfathrebu brys y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae'r tîm Cyfathrebiadau Corfforaethol yn darparu cymorth y tu allan i oriau gwaith drwy gynnal rota ar-alwad, a hynny ar system shifft gyda Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn sicrhau bod negeseuon diogelwch pwysig ac allweddol yn cael eu rhannu â'r cyhoedd pan fo angen. Bydd angen i chi ymuno â'r rota ar alwad, gan ddechrau drwy gysgodi cydweithiwr nes y byddwch yn teimlo'n hyderus i ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau ar eich pen eich hun. Bydd bod ar y rota ar-alwad yn golygu y cewch lwfans ychwanegol o



# Beth allwn ni ei gynnig i chi

## Cyflog

Graddfa 07

Cyflog Sylfaen: Dechrau ar £33,024 y flwyddyn, gan godi i £35,745 y flwyddyn.

Bydd lwfans ychwanegol o 8.5% os ydych yn ymuno â'r rota ar-alwad; felly bydd y cyflog yn codi i £35,831 i £38,783 y flwyddyn gan gynnwys y lwfans.

## Lleoliad gwaith

Canolfan y swydd yw'r Pencadlys yn Llanelwy, gyda'r potensial i wneud rhywfaint o waith o bell neu o leoliadau eraill y gwasanaeth tân.

Rydym yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac rydym yn ceisio cymaint â phosibl i gefnogi staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd cartref. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio rhithwir a gweithio gartref lle bo hynny'n ymarferol ar gyfer y rôl, a gellir trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweliad.

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae hon yn swydd barhaol.

Gan fod cyfathrebu'n rhan hollbwysig o gefnogi ein criwiau rheng flaen a'r ochr weithredol i ddarparu gwasanaethau, mae'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn darparu cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau critigol yn ystod oriau anghymdeithasol a phenwythnosau, a hynny ar sail rota ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru.

O ganlyniad, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gymryd rhan yn y rota ar-alwad, ac ar ôl cychwyn, bydd hyn yn denu lwfans o 8.5% ychwanegol.

## Manteision y swydd

- Hawl gwyliau blynyddol hael, yn dechrau ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus
- Cynllun Oriau Hyblyg sy'n galluogi staff i weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i chi er mwyn datblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Amrywiaeth o fanteision ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr a darparwyr hamdden a gwasanaethau.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol |
| **Adran** | Cyfathrebu Corfforaethol |
| **Yn atebol i** | Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol |

## Rôl Gyffredinol

Bydd deiliad y swydd yn chwarae rhan ragweithiol wrth ddatblygu a hyrwyddo'r strategaeth cyfathrebu corfforaethol, gan gynorthwyo i sicrhau bod y tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn cyrraedd y safonau uchaf.

Darparu cyfryngau a chyfathrebiadau allanol a mewnol cynhwysfawr a phroffesiynol ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Allweddol

### Cefnogi'r Adran

1. Cynorthwyo i weithredu'r strategaeth cyfathrebu, o dan arweiniad y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, gan gefnogi cyflawniadau allweddol a amlinellir yn y strategaeth.
2. Darparu rôl allweddol mewn cyfathrebu mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth, cyngor, arweiniad proffesiynol ac arbenigedd ar draws nifer o lwyfannau.

### Gweithredu Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol

3. Arwain y gwaith o weithredu'r strategaeth cyfathrebu, yn benodol mewn perthynas â meysydd sy'n ymwneud â chyfathrebiadau staff, boddhad staff a diwylliant sefydliadol, ymgysylltu â'r cyfryngau, hyfforddiant cyfryngau, a chynllunio cydnerthedd a chynllunio wrth gefn ar lefel leol i fod yn barod ar gyfer argyfyngau.
4. Gweithredu fel swyddog y wasg ar alwad y tu allan i oriau ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru a rheoli'r rota ar alwad ar y cyd.
5. Cynorthwyo i gyflawni cyflawniadau allweddol a nodwyd yn y strategaeth cyfathrebu.

### Cyfathrebu Mewnol Effeithiol

6. Helpu i sicrhau cyfathrebu mewnol mor effeithiol â phosibl, gan sicrhau lefel gyson uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y staff o faterion a mentrau perthnasol.
7. Cysylltu â staff ar draws Gogledd Cymru i hyrwyddo gweithgareddau'r Gwasanaeth yn effeithiol.
8. Cyfrifoldeb am ddrafftio, cwblhau a chyhoeddi'r 'Crynodeb Wythnosol', sef cyfathrebiad digidol ar gyfer y staff.
9. Cynnal cynnwys cyfredol ar dudalen hafan mewnrwyd Hwb a sicrhau bod y sylw diweddaraf yn y cyfryngau yn cael ei rannu ar draws y sefydliad.
10. Cynorthwyo i gydlynu delweddau a fideos er mwyn gallu hyrwyddo cyfathrebu mewnol yn ogystal ag allanol.
11. Cynorthwyo gydag atebion creadigol ac arloesol i sicrhau'r ymgysylltu mwyaf ag ymgyrchoedd, mentrau neu ddigwyddiadau'r Gwasanaeth yn fewnol ac yn allanol.
12. Hyrwyddo delwedd gyhoeddus broffesiynol yn gadarnhaol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
13. Cynorthwyo i hyrwyddo a chynrychioli'r Gwasanaeth mewn digwyddiadau yn unol â gofynion adrannol.
14. Hyrwyddo'r adran cyfathrebu corfforaethol a meithrin perthnasoedd rhagorol ar draws y Gwasanaeth – sy'n cynnwys ymweld â gorsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru i gasglu gwybodaeth y gellir ei hyrwyddo'n gadarnhaol yn fewnol i staff eraill neu'n allanol i gymunedau lleol.

### Ymgysylltu Allanol Effeithiol

15. Hyrwyddo delwedd gyhoeddus broffesiynol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
16. Hyrwyddo a chynrychioli'r Gwasanaeth o ran y berthynas â chwsmeriaid ac ymwelwyr, gan reoli eu cyfathrebu eu hunain a chyfathrebiadau busnes yn unol â gofynion y rôl.
17. Gweithio'n rhagweithiol gyda swyddogion ar draws y Gwasanaeth i gefnogi a hyrwyddo'r pethau allweddol y mae angen eu darparu.

18. Cynorthwyo gyda strategaethau lleihau risg, partneriaethau a chysylltiadau cymunedol o dan y strategaethau atal, amddiffyn ac ymyrryd.
19. Sicrhau cyfathrebu allanol mor effeithiol â phosibl drwy wefan a chyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth, gan gynnal y cynnwys a'r wybodaeth ddiweddaraf.
20. Cynorthwyo gydag atebion creadigol ac arloesol i ymgysylltu allanol yn ymgyrchoedd, mentrau neu ddigwyddiadau'r Gwasanaeth.
21. Cynorthwyo i hyrwyddo a marchnata prosiectau a mentrau penodol sy'n digwydd o fewn y Gwasanaeth.

**Cysylltiadau â'r Cyfryngau a Rheoli Argyfyngau**

22. Paratoi datganiadau newyddion, datganiadau a briffiau cryno a chywir ar gyfer digwyddiadau gweithredol, gan gysylltu ag adrannau mewnol eraill ac asiantaethau allanol.
23. Meithrin perthnasoedd cryf â'r cyfryngau lleol a chenedlaethol, gan arddangos cyflawniadau sefydliadol a mentrau sy'n teilyngu sylw ar y newyddion mewn modd rhagweithiol a sicrhau sylw cyson, dan reolaeth, yn y cyfryngau, gan gyd-fynd â'r strategaeth gorfforaethol.
24. Cymryd rhan mewn trefniant ar alwad 24/7 ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru yn ymwneud â chefnogaeth swyddogion y wasg ar gyfer digwyddiadau mawr y tu allan i oriau swyddfa arferol (gan gynnwys gwyliau banc a phenwythnosau), gan weithio i brotocol sefydledig y cytunwyd arno a gweithredu ar sail rota.
25. Cynorthwyo i reoli'r cyfryngau yn ystod digwyddiad neu argyfwng mawr, gan gynnwys cydlynu ymdrechion a chyfrannu at ddatblygu galluoedd rheoli argyfwng sy'n cyd-fynd â threfniadau parhad busnes, a Phrotocol Gweithredu amlasiantaethol ar gyfer ymwneud â'r Cyfryngau a sefydlwyd trwy Grŵp Rhybuddio a Hysbysu Gogledd Cymru.
26. Cynorthwyo mewn cynadleddau i'r wasg a chyfweliadau yn y cyfryngau, gan nodi a darparu arweiniad i lefarwyr.
27. Cynorthwyo i liniaru a rheoli cysylltiadau cyhoeddus negyddol, gan hysbysu Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth am fygythiadau posibl a helpu i gydlynu ymatebion priodol.
28. Gwneud y mwyaf o gyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau a mentrau'r Gwasanaeth trwy gyswllt effeithiol â'r cyfryngau, gan sicrhau lefel gyson uchel o sylw o ansawdd.

**Rhwydweithio, Datblygiad Proffesiynol a'r Gymraeg**

29. Sefydlu a hyrwyddo perthnasoedd gwaith da gyda phartneriaid, awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub eraill a chyrff proffesiynol.
30. Mynychu cynadleddau, cyfarfodydd ac ymarferion hyfforddi fel y bo'n briodol i gynrychioli buddiannau'r Gwasanaeth a datblygu rhwydweithiau.
31. Wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn gallu dangos hyn.
32. Sicrhau bod cyfathrebu ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan adlewyrchu ymrwymiad y Gwasanaeth i Safonau'r Gymraeg.

**Cefnogaeth a Hyfforddiant Tîm**

33. Dangos gallu fel chwaraewr tîm hyblyg a phrofedig a gweithiwr proffesiynol arbenigol ym maes cyfathrebu yn yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol i gefnogi a hyrwyddo darpariaethau a rhaglenni newid y Gwasanaeth.
34. Mae blaenoriaethu dyletswyddau ac allbynnau yn unol â therfynau amser mewn adran brysur yn un o ofynion allweddol y swydd hon.
35. Gweithio'n agos gyda'r dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, Cysylltiadau â'r Cyfryngau ac Ymgysylltu â Staff.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Gallu rheoli gwahanol asiantaethau allanol e.e. ffotograffwyr ac argraffwyr.

## Goruchwyliaeth Gan

Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, Cysylltiadau â'r Cyfryngau ac Ymgysylltu â Staff.

## Amodau Gwaith

Gweithio patrwm oriau hyblyg i fodloni gofynion y gwasanaeth. Wedi'i leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth yn Llanelwy gyda'r gallu i weithio'n ystwyth.

## Gofynion Teithio

Teithio i wahanol leoliadau'r Gwasanaeth, gan gynnwys safleoedd digwyddiadau yn ôl yr angen.

# Manyleb y Person

| | | |
|---|---|---|
| **Profiad a Chymwyseddau sydd eu hangen** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt | |
| | Addysg i lefel gradd mewn pwnc cysylltiedig e.e. Cysylltiadau Cyhoeddus, Newyddiaduraeth, Astudiaethau'r Cyfryngau, Astudiaethau Busnes – neu dystiolaeth o brofiad gyrfa tebyg. | |
| | Sgiliau Cyfathrebu: Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar eithriadol, gyda dawn ar gyfer ysgrifennu cyfathrebu staff a phrofiad o ddrafftio datganiadau a briffiau newyddion cryno a chywir ar gyfer rhanddeiliaid amrywiol. | |
| | Profiad Cyfathrebu: Profiad blaenorol mewn rôl gyfathrebiadau debyg o fewn y gwasanaethau brys, cysylltiadau cyhoeddus neu feysydd cysylltiedig, gan ddangos dealltwriaeth o heriau a gofynion y swydd. | |
| | Profiad Cysylltiadau â'r Cyfryngau: Profiad amlwg o greu a chynnal perthnasoedd â chyfryngau lleol a chenedlaethol, y gellir ei ddangos yn sgil sylw llwyddiannus yn y cyfryngau a chanfyddiad cyhoeddus cadarnhaol - i gynnwys profiad o ddarparu hyfforddiant cyfryngau a hyfforddiant i lefarwyr. | |
| | Rheoli Argyfyngau: Profiad o reoli'r cyfryngau yn ystod argyfyngau, gan sicrhau negeseuon cyson a chydlynu effeithiol â rhanddeiliaid perthnasol. | |
| | Cydweithio a Gwaith Tîm: Y gallu i gydweithio'n effeithiol ag adrannau mewnol, asiantaethau allanol a sefydliadau partner i sicrhau strategaethau ac ymatebion cyfathrebu cydlynol. | |
| | Sgiliau trefnu ardderchog: Ysgogiad amlwg i reoli eich llwyth gwaith eich hun, gyda'r gallu i weithio i derfynau amser caeth. | |
| | Hyblygrwydd a'r Gallu i Addasu: Parodrwydd i weithio oriau hyblyg a darparu gwasanaeth swyddfa'r wasg ar y cyd y tu allan i oriau swyddfa arferol ar sail rota. | |
| | Hyfedredd o ran y Gymraeg: Rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i sicrhau bod cyfathrebu yn hygyrch ac yn gynhwysol i'r holl randdeiliaid. | |
| | Datblygiad Proffesiynol: Ymrwymiad amlwg i ddatblygiad proffesiynol parhaus ym meysydd cyfathrebu a chysylltiadau â'r cyfryngau. | |
| | Gwybodaeth Ddigidol: Profiad a gwybodaeth gyfredol am dueddiadau ac arferion y diwydiant o ran cyfathrebu ar wefannau, cyfryngau digidol/cymdeithasol a defnyddio llwyfannau rheoli cynnwys. | |
| | Gallu Gyrru: Trwydded yrru lawn, lân y DU. | |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol | |
| | Sgiliau Rhwydweithio: Sgiliau rhwydweithio cryf gyda'r gallu i sefydlu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda phartneriaid, awdurdodau lleol a chyrff proffesiynol. | |
| | Hyfforddiant Parodrwydd am Argyfwng: Hyfforddiant blaenorol neu brofiad o reoli argyfyngau neu ymateb brys, gan ddangos dealltwriaeth o arferion gorau a phrotocolau ar gyfer rheoli argyfyngau yn effeithiol. | |

*Gofynnir am dystiolaeth o gymwysterau a'i dilysu cyn cadarnhau'r penodiad

Sylwch: Bydd rhaid i chi allu dangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol er mwyn cyrraedd y rhestr fer.

# Sgiliau'r Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, credwn, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Ymfalchïwn ein bod wedi cymryd mater yr iaith o ddifrif ers blynyddoedd lawer.  Wrth gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r Gwasanaeth yn sgil cynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.  Mae arbed bywydau a lleihau risg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth ac mae mater yr iaith yn hanfodol i lwyddiant ein cenhadaeth.

Ar gyfer y swydd hon, mae'r gofyniad o ran y Gymraeg wedi'i osod ar lefel 4, ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u rhestru isod.

| Maes Sgiliau | Gofynion Safonau'r Gymraeg |
|---|---|
| **Siarad / Gwrando** | ▪ Gallu cynnal sgwrs estynedig anffurfiol sy'n gysylltiedig â'r gwaith neu roi cyflwyniad gyda lefel dda o rugldere ac ystod o ymadroddion, ond efallai y bydd angen troi i iaith arall i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>▪ Gallu cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn eu maes gwaith eu hunain.<br>▪ Gallu dadlau o blaid/yn erbyn achos |
| **Darllen** | ▪ Gallu darllen a deall gwybodaeth yn weddol gyflym cyn belled nad oes geirfa anarferol yn cael ei defnyddio ac nad oes gwybodaeth arbennig o gymhleth na thechnegol dan sylw. |
| **Ysgrifennu** | ▪ Gallu paratoi llythyrau ffurfiol o wahanol fathau, megis ymholiadau, cwynion, a cheisiadau.<br>▪ Gallu gwneud cofnodion rhesymol gywir mewn cyfarfodydd neu pan fo rhywun yn arddweud.<br>▪ Gallu ysgrifennu adroddiadau / dogfennau sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun |



# Sut i Wneud Cais

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Peidiwch â chyflwyno'ch CV gyda'r Ffurflen Gais, gan mai dim ond yr wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei defnyddio ar y cam llunio rhestr fer.

Wrth gwblhau eich cais, ymgyfarwyddwch â'r disgrifiad swydd a manyleb y person yn y pecyn gwybodaeth hwn fel eich bod yn deall y cymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Mae p'un a fyddwch chi'n cael eich rhoi ar restr fer am gyfweliad ai peidio yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch yn eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol ar eich cyfer.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais cyn y dyddiad cau gan na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd hon neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol cyn gwneud cais, ffoniwch Tracey Williams ar 01745 535 285.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau** | **12:00 ar 08.05.24** |

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service